Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Cynorthwy-ydd Ymchwil - Trin Dŵr â Phlasma Anthermol**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg |
| **Adran/Pwnc:** | Peirianneg Gemegol |
| **Cyflog:** | Gradd 7: £34,610 to £38,784 y flwyddyn |
| **Oriau gwaith:** | 100% |
| **Nifer y Swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Dyma swydd am gyfnod penodol o 6 mis |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws y Bae |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddyletswyddau** | 1. Ymgymryd ag ymchwil dŵr arbrofol o safon uchel yn y labordy i dechnoleg plasma anthermol ac ailactifadu deunyddiau soled.<br>2. Dadansoddi nodweddion cemegol a ffisegol samplau dŵr a soledau gan ddefnyddio technegau dadansoddi safonol ac uwch (e.e. HPLC, FTIR, BET arwynebedd, SEM).<br>3. Cynhyrchu, dadansoddi, dehongli a gwerthuso'n feirniadol ddata arbrofol, gan gynnwys cofnodion labordy cywir a sicrhau safonau uchel o ansawdd data.<br>4. Paratoi adroddiadau technegol, cyflwyniadau a setiau data i gefnogi allbynnau'r prosiect, cyhoeddiadau, datblygu eiddo deallusol a gweithgareddau effaith y REF.<br>5. Sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau iechyd a diogelwch labordy, asesiadau risg a pholisïau'r Brifysgol.<br>6. Cyfrannu at reoli'r prosiect o ddydd i ddydd, gan gynnwys cynllunio gweithgareddau, archebu nwyddau traul, monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir a chynorthwyo wrth gyflawni allbynnau'r prosiect ar amser.<br>7. Rheoli dyddiadau cau tynn ar gyfer y prosiect, cynnal lefel uchel o gynhyrchiant a sicrhau bod cerrig milltir allweddol yn cael eu bodloni mewn modd amserol.<br>8. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n ymwneud ag ymchwil ac sy'n gymesur â gradd y swydd yn ôl cyfarwyddyd y Prif Ymchwilydd. |
| | 9. Cyfrannu'n rhagweithiol at ymchwil a chynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data, meddwl am syniadau newydd a chyflwyno canlyniadau.<br>10. Paratoi adroddiadau, drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, boed yn gyfrinachol neu i'w cyhoeddi.<br>11. Bod yn uchel eich cymhelliant a defnyddio eich menter â'r nod o ganfod ffyrdd addas o fynd i'r afael â heriau, a gofyn am arweiniad yn ôl yr angen.<br>12. Rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn broffesiynol â chydweithredwyr a phartneriaid eraill yn y Gyfadran, mewn mannau eraill yn y Brifysgol, a'r tu hwnt ym myd diwydiant a masnach ac yn y byd academaidd.<br>13. Cyfrannu at faterion trefniadaethol y Gyfadran i'w helpu i weithredu'n hwylus a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.<br>14. Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes o safbwynt technegol, penodol a chyffredinol, a'u goblygiadau ehangach ar gyfer maes y ddisgyblaeth, cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth.<br>15. Pan ofynnir i chi, bod yn gynrychiolydd neu'n aelod o bwyllgorau, gan ddefnyddio'r cyfle i ehangu eich profiad proffesiynol eich hun.<br>16. Dangos tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu drwy gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn enwedig o ran y cyfnod prawf, adolygiadau datblygiad proffesiynol a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddiant.<br>17. Cynnal a gwella cysylltiadau â'r sefydliadau proffesiynol a chyrff perthynol eraill.<br>18. Glynu wrth brotocolau arfer gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel y'i nodir gan ganllawiau rheoli cofnodion sefydliadau addysg uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cofnodion llyfrau log y prosiect yn cael eu hanfon at y Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| | |
|---|---|
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 19. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>20. Ymgymryd â'r rôl a holl weithgareddau'r swydd yn unol â systemau rheoli a pholisïau diogelwch, iechyd a chynaliadwyedd er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o weithgarwch y swydd.<br>21. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>22. Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'r Gyfadran/Gyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth wedi cytuno arnynt. |
| **Manyleb Person** | **Meini Prawf Hanfodol:**<br>1. Gradd (neu gymhwyster/brofiad cyfwerth) mewn Cemeg, Peirianneg Gemegol, Gwyddor Dŵr, Ffiseg neu ddisgyblaeth berthynol agos.<br>2. Arbenigedd mewn gwaith labordy arbrofol, gan gynnwys paratoi, gweithredu ac optimeiddio technegau dadansoddol.<br>3. Tystiolaeth o'r gallu i gynnal ymchwil yn unol ag amcanion y prosiect.<br>4. Tystiolaeth o'r gallu i ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir a chyfrannu at y gwaith hwn.<br>5. Tystiolaeth o sgiliau cynllunio i gyfrannu at y prosiect ymchwil.<br>6. Y gallu i weithio'n annibynnol ag ychydig iawn o oruchwyliaeth, gan gynnal safonau uchel.<br>7. Yn gyfarwydd â rheoliadau amgylcheddol a diogelwch mewn labordy.<br>8. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br>9. PhD mewn Cemeg, Peirianneg Gemegol neu bwnc cysylltiedig<br>10. Profiad o brosesau plasma anthermol a/neu drin dŵr a/neu brosesau amsugno.<br>11. Profiad o weithredu offeryniaeth ddadansoddol a nodweddu ansawdd dŵr a deunyddiau amsugnol (e.e. TOC, UV-Vis, HPLC, BET, SEM).<br>12. Tystiolaeth o ledaenu ymchwil drwy gyhoeddiadau gwyddonol, cyflwyniadau mewn cynadleddau neu adroddiadau technegol. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Level 1 – 'a little' - pronounce Welsh words. Able to answer the phone in Welsh (good morning / afternoon). Able to use very basic every-day words and phrases (thank you, please etc.). Level 1 can be reached by completing a one-hour training course.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Yr Athro Chedly Tizaoui (c.tizaoui@abertawe.ac.uk) |

Athena SWAN Silver Award — ECU Gender Charter

Stonewall Cymru Diversity Champion

HR Excellence in Research